## Cyn-Aelodau’r Lluoedd Arfog a’r System Cyfiawnder Troseddol

---

# Adolygiad ar ran Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

**Stephen Phillips CF AS**

# Crynodeb Gweithredol

▪ Mae'r mwyafrif llethol o'r rheini sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn mynd yn ôl i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog heb broblem ac maent yn llai tebygol o gyflawni troseddau na sifiliaid cyfatebol eraill.

▪ Mae lleiafrif bach yn cael anawsterau ac yn mynd i drwbl gyda'r gyfraith. Mae'n annhebygol bod gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog wedi achosi'n uniongyrchol iddynt droseddu, ond weithiau mae eu profiadau ac, ar brydiau, eu hyfforddiant wedi cyfrannu at hyn. Mae llawer o elusennau ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog yn cynnig cymorth i'r unigolion hyn.

▪ Mae'r term anhwylder straen wedi trawma yn cael ei or-ddefnyddio i esbonio ymddygiad y garfan hon o droseddwyr, ond mae iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau'n aml yn elfennau sy'n cyfrannu at eu troseddu, yn ogystal â ffactorau risg eraill fel digartrefedd a diweithdra.

▪ Crëwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog i gydnabod yr aberth a wnaed gan y rheini sy'n gwasanaethu, ac mae'r cyfamod yn gofyn bod y grŵp hwn o droseddwyr yn cael ei adnabod ac yn cael y driniaeth briodol cyn gynted ag y bo modd, er eu lles hwy a'u teuluoedd, yn ogystal â'r cyhoedd. Yn y dyfodol, dylid gofyn i droseddwyr ym mhob cam yn y system cyfiawnder troseddol a ydynt wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

▪ Yn y gorffennol, mae llunwyr polisïau wedi cael eu llesteirio gan ddiffyg absenoldeb data pendant a fyddai'n galluogi pobl i nodi llwybrau effeithiol i atal y rheini sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rhag troseddu. Rhaid casglu data o'r fath yn y dyfodol fel mater o drefn.

▪ Mae gwybodaeth gweithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder troseddol am anghenion cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn fylchog, a mater o lwc yw cael yr hyfforddiant priodol. Yn y dyfodol, dylai pob gweithiwr ym maes cyfiawnder troseddol allu cael hyfforddiant ac adnoddau priodol er mwyn gallu sicrhau ymyrraeth effeithiol gyda chyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi troseddu.

▪ Nid yw pob cyfleuster carcharu yng Nghymru a Lloegr yn delio'n briodol â charcharorion sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, nac yn caniatáu digon o amser i'w swyddogion ddelio â'r carcharorion hyn. Mae hyn yn llesteirio'r ymdrechion i adsefydlu ac ailsefydlu. Mae'r un peth yn wir am y gwasanaethau prawf. Yn y dyfodol, rhaid cyflwyno cynlluniau priodol ar lefel genedlaethol i ddelio â chyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n bwrw dedfrydau yn y carchar neu ddedfrydau yn y gymuned, gan ddefnyddio'r arfer gorau presennol yn y maes hwn.

▪ Yn y Cynlluniau Cyswllt a Dargyfeirio a gyflwynwyd yn ddiweddar (disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith ar lefel genedlaethol yn Lloegr erbyn 2017/18) mae angen nodi llwybrau effeithiol i atal cyn-aelodau'r lluoedd arfog rhag troseddu. Mae'r ymdrechion hyn yn bwysig a dylent fod yn rhan amlwg o'r gwaith o werthuso a datblygu arfer gorau yn y maes hwn.

▪ Mae Adolygiad Pontio Cyn-filwyr gan yr Arglwydd Ashcroft yn cynnwys cyfres o argymhellion sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar atal cyn-aelodau'r lluoedd arfog rhag troseddu. Rwyf ar ddeall o ymateb y Llywodraeth i'w adolygiad fod llawer o'r rhain yn debygol o gael eu rhoi ar waith yn awr.

▪ Mae rhai asiantaethau statudol yng Nghymru a Lloegr wedi cychwyn cynlluniau i adnabod ac atal ymddygiad troseddol gan gyn-aelodau'r lluoedd arfog, yn bennaf drwy eu cyfeirio ymlaen at y trydydd sector ac asiantaethau cefnogi eraill. Mae'r cynlluniau hyn yn bwysig iawn, a dylid rhoi darpariaeth debyg ar waith ar lefel genedlaethol.

▪ Mae diffyg canllawiau cenedlaethol i asiantaethau statudol wedi bod yn rhwystr yn y gorffennol rhag gweithio'n effeithiol gyda throseddwyr sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth dameidiog ledled Cymru a Lloger. Er mwyn sicrhau cysondeb, dylid penodi uwch was sifil yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gydlynu polisi cenedlaethol, a dylai'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd bob blwyddyn i'r Senedd ar y cynnydd wrth ddelio â'r grŵp hwn o droseddwyr.

▪ Yn yr Unol Daleithiau mae llysoedd wedi'u sefydlu i ddelio'n benodol â throseddwyr sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ac mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael sy'n dweud bod y llysoedd hyn yn effeithiol. Mae'n bur debyg mai ymyriadau penodol sy'n gyfrifol am unrhyw effeithiolrwydd yn hytrach na'r ffaith bod llysoedd o'r fath wedi'u sefydlu. Ac ystyried y system llysoedd yng Nghymru a Lloegr a Lluoedd Arfog llai y DU, go brin y byddai cyflwyno llysoedd arbennig o'r fath yn addas yma.

# Atodiad A — Cylch Gorchwyl

Fe'ch gwahoddir chi, Stephen Phillips CF AS, i gynnal adolygiad annibynnol o gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol.

Dylech ymgynghori â'r Grŵp Cyfeirio Cyfamod Traws-lywodraethol ac adrodd i mi, Chris Grayling – yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, gan gynnig argymhellion o'r fath fel sy'n briodol, o fewn 6 mis.

Wrth gynnal yr adolygiad, cewch fynediad llawn at ddogfennau perthnasol gan y llywodraeth a chefnogaeth gan swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i chydlynu gan brif swyddog a enwebir.

Chi fydd yn penderfynu ar fethodoleg yr adolygiad ond dylech ystyried y canlynol:

> (1) Anghenion adsefydlu cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi eu cael yn euog o gyflawni troseddau ac wedi cael dedfryd o garchar neu ddedfryd yn y gymuned, a'r gwasanaeth adsefydlu sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd.
>
> (2) Y broses lle bydd cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn cael eu hadnabod ar ôl eu cael yn euog.
>
> (3) Arfer gorau sy'n berthnasol i adsefydlu troseddwyr sy'n gyn-aelodau'r lluoedd arfog gan gynnwys tystiolaeth o ymyriadau effeithiol mewn gwledydd eraill.

Bydd yr adroddiad a'r cylch gorchwyl hwn yn cael eu cyhoeddi, a bydd copïau ar gael yn llyfrgelloedd y Senedd.

18 Mehefin 2014

# Atodiad B — Argymhellion

(1) O fewn chwe mis i'r dyddiad y bydd King's Centre for Military Health Research yn cyhoeddi ei hastudiaeth ar drais domestig sy'n cael ei gyflawni gan y rheini sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad i'r Senedd ynghylch cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn cyflawni trais domestig a'r camau a gymerir ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael ag unrhyw faterion y nodwyd eu bod yn effeithio ar y garfan hon o droseddwyr ac i'w hatal rhag troseddu.

(2) Yn y dyfodol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, fel mater o drefn, gasglu data ynghylch faint sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac sy'n cael eu cadw dan glo neu achosion lle mae'r gwasanaethau prawf yn gorfod ymyrryd. Yn ogystal â data o'r math, dylid dadansoddi manylion y troseddau a gyflawnwyd a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â throseddwyr a nodweddion y troseddwyr.

(3) Ar bob cam yn yr ymyriad rhwng troseddwr sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y system honno, dylid casglu a chofnodi gwybodaeth yn y dyfodol sy'n dangos a yw'r troseddwr hwnnw wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn y gorffennol.

(4) O fewn deuddeng mis, dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, (a) adnewyddu ei ganllawiau ar weithio gyda chyn-aelodau'r lluoedd arfog dan glo, a (b) cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar fynd i'r afael ag anghenion cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi troseddu ac yr ymdrinnir â hwy yn y gymuned.

(5) Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y Cynllun Cefnogi Dioddefwyr dan Glo a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei weithredu'n briodol ar lefel genedlaethol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wneud yn orfodol yr elfennau yn y cynllun sy'n angenrheidiol er mwyn ei ymgorffori yn y gwasanaethau prawf a charcharu. Dylid cynnig hyfforddiant rheolaidd i bob gweithiwr proffesiynol ym maes cyfiawnder troseddol sy'n gweithio yn y meysydd hyn.

(6) Dylai'r holl gynlluniau Cyswllt a Dargyfeirio ddatblygu llwybrau penodol i'r rheini sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Dylai asesiad o'r llwybrau hyn fod yn rhan amlwg o'r gwaith o werthuso a datblygu arfer gorau.

(7) Dylid ehangu unrhyw gyfeiriadur o wasanaethau a darparwyr gofal iechyd sy'n cael ei greu yn unol ag argymhellion Adolygiad Pontio Cyn-filwyr gan yr Arglwydd Ashcroft i gynnwys yr holl wasanaethau cymorth arbenigol a darparwyr gwasanaethau perthnasol neu achrededig sy'n cynnig ymyriadau i gyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

(8) Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder weithio gyda'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu rhaglen benodol o hyfforddiant i swyddogion er mwyn eu helpu i adnabod a chyfeirio cyn-

aelodau'r lluoedd arfog sy'n cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu at wasanaethau cefnogi sy'n gallu eu cynorthwyo i'w hatal rhag troseddu.

(9) Gydag adrannau eraill y llywodraeth a heddluoedd ar draws y wlad, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder weithredu cynllun mentora cyfoedion a dargyfeirio yn y llysoedd ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog, gan ganoli hyn yn y prif ganolfannau cyfiawnder troseddol ym mhob cylchdaith yng Nghymru a Lloegr.

(10) Dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr weithio yn y dyfodol gydag elusennau ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog a chyrff eraill (o bosib, y Grŵp Cyfeirio Cyfamod Traws-lywodraethol) i gydlynu'r gefnogaeth gan asiantaethau statudol ac elusennau ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi troseddu.

(11) Dylid penodi uwch was sifil yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a fydd yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol, i fod yn gyfrifol am gyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gyda'r nod o sicrhau strategaeth genedlaethol amlwg sy'n defnyddio arfer gorau ar draws Cymru a Lloger ar gyfer delio â'r garfan hon o droseddwyr.

(12) Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd bob blwyddyn i'r Senedd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael ag anghenion cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

(13) Dylid cynnig hyfforddiant ar y materion sy'n effeithio ar gyn-aelodau'r lluoedd arfog i bob lefel o'r farnwriaeth, a dylid newid cyhoeddiadau sy'n delio ag amrywiaeth a thriniaeth deg er mwyn ymdrin â'r grŵp hwn o droseddwyr.

(14) Dylid annog cyfreithwyr amddiffyn a chwnsleriaid i gael hyfforddiant ar y materion sy'n effeithio ar gyn-aelodau'r lluoedd arfog fel rhan o gyflawni'r gofyniad ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus.

(15) Dylai'r mater yn ymwneud â chyn-aelodau'r lluoedd arfog yn y system cyfiawnder troseddol a'u troseddau gael ei ystyried yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer y gronfa LIBOR flynyddol o £10m ar gyfer 2015/16.